

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL  
CYFARFOD / MEETING 6/7/2015**

**PRESENNOL:** Cadeirydd Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr B Veevers, a Mr R G Parry.

**PRESENT:** Chairman Mrs C Lloyd, Mrs S Jones, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr B Veevers, and Mr R G Parry.

**YMDDIHEURIAD:** Derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb oddi wrth Ms M Williams a Mrs H Williams

**APOLOGY:** Apology for their was received from Ms M Williams, Mrs H Williams,

**COFNODION:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 1 Mehefin 2015 yn gofnod cywir.

**MINUTES:** Minutes of the meeting held on the 6 June 2015 were accepted as true minutes.

**MATERION YN CODI:**

**1. Cloc y Pentref.**

(a) Rhodd o £500 tuag at osod golau ar wynebâu'r cloc wedi'i dderbyn oddi wrth Elusen William Bold.

(b) J B Joyce wedi ymweld â'r cloc ac wedi'i drin.

(c) Hanes 4 o filwyr wedi'u hanfon at Pwynt Hanes. Y pwynt hanes yn barod i'w osod ar y cloc. Penderfynwyd fod y Cadeirydd i gyfarfod â Rhodri ac i benderfynu ar y lle gorau i osod y pwynt.

**2. Llwybrau cyhoeddus.**

Mrs S Jones wedi trefnu'r daith gerdded o gwmpas y llwybrau cyhoeddus ac wedi cael y llwybrau mewn cyflwr da.

Canfuwyd yn ystod y daith bod wal eiddo Mrs Bown, sydd yn derfyn ar lwybr cyhoeddus, angen ei thrwsio. Dywedodd Mr B Veevers y byddai'n dod a'r mater i sylw Mrs Bown.

Canfuwyd hefyd fod pyst pren a'u gwaelod mewn concrit wedi'u gadael ar lwybr Glen Cottage. Penderfynwyd gofyn i Mr R G Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.

**Llwybr Pendref.** Roedd Mrs Sharon Jones wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r llwybr uchod. Derbyniodd

**MATTERS ARISING**

**1. Village Clock.**

(a) A donation of £500 towards lighting the clock faces was received from the William Bold Charity.

(b) Messrs J B Joyce had attended at the clock and carried out repairs.

(c) The history of 4 soldiers had been forwarded to History Point. The history point now ready to install on the clock. It was decided that the Chairman meet Rhodri to decide the best place for the point to be installed.

**2. Public Footpaths.** Mrs S Jones had arranged the annual walk around the public footpaths and had found the footpaths to be in good order. It was noted that the wall at Mrs Bown's property which forms a boundary on a public footpath is in need of repair. Mr B Veevers said that he would bring the matter to Mrs Bown's attention.

It was also noted that wooden posts fixed into concrete had been left at the Glen Cottage footpath. It was decided to ask Mr R G Parry to bring this matter to the attention of the County Council.

**Pendref footpath.** Mrs Sharon Jones had contacted the County Council regarding the above footpath. She had

ymateb yn cadarnhau bod Mr Arwel G Evans, swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir wedi cerdded y llwybr yr haf diwethaf ac wedi cael y llwybr wedi'i rwystro'n gyfan gwbl yng Ngharreg y Fran gyda charafán statig ar ei draws. Mae'n debyg y bydd rhaid defnyddio pwerau gorfodaeth er mwyn adfer mynediad. Bydd y swyddog yn ysgrifennu at berchnogion Carreg y Fran yn y dyfodol agos.

**3. Tyllau ar y ffyrdd a gordyfiant gwrychoedd ger Afon Felin..** Y Cynghorydd R G Parry wedi derbyn cadarnhad o'r Cyngor Sir bod y gwaith trwsio'r tyllau a thorri'r gwrychoedd mewn llaw.

**4. Yswiriant y Cyngor.** Llythyr oddi wrth bwyllgor Carnifal Gwalchmai yn diolch i'r Cyngor Cymuned, ar ran plant a rheini'r pentref, am gytuno i gynnwys y cae chwarae plant yn yswiriant y Cyngor a hefyd am barhau i dalu rhent blynyddol y Cae Chwarae.

#### **GOHEBIAETH:**

**1. Pwyllgor Gweithgareddau Gwalchmai.** Cais I'r Cyngor gynnwys Carnifal eleni yn eu Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Penderfynwyd gwneud hyn ar yr un telerau a'r llynedd.

#### **2. Cyngor Sir Ynys Môn**

##### **(a) Pwyllgor Cynllunio.**

Rhybudd Derbyn Cais fel a ganlyn:

(i) Barn sgrinio ar gyfer gosod fferm area heulol (SMW) ar dir ger Cefn Caer For;

(ii) Cais llawn ar gyfer codi garej yn Llys y Gwyn

received a response confirming that Mr Arwel G Evans, the County Council's Public Rights of Way Officer had walked the footpath last summer and had found it blocked completely by a static caravan at Carreg y Fran. It is likely that enforcement powers will have to be used in order to restore access. The Officer will be writing to the owners of Carreg y Fran in the near future.

**3. Holes in the roads and overgrown hedges by Afon Felin..** Councillor R G Parry had received confirmation from the County Council that repair work and cutting of the hedges was in hand.

**4. Council's Insurance.** Letter from the Gwalchmai Carnival committee thanking the Council on behalf of the children and parents of the village for agreeing to include the playing field within the Council's insurance and also for agreeing to continue paying the annual rent for the Playing Field.

#### **CORRESPONDENCE:**

##### **1. Gwalchmai Activities Committee**

A request that the Council include this year's Carnival in the Council's Public Liability Insurance. It was decided to agree to this under the same terms as last year.

##### **2. Isle of Anglesey County Council**

###### **(a) Planning Committee.**

Notice of receipt of application as follows:

(i) Screening Opinion for the siting of a solar farm (SMW) on land near Cefn Caer For;

(ii) Full application for the erection of a garage at Llys y Gwynt.

**(b) Yr Eisteddfod Genedlaethol.**

Gwahoddiad I gyfarfod cyhoeddus ar 25/6/2015 i ganfod mesur y gefnogaeth i'r cynnig i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn yn 2017. Neb yn rhydd i fynychu'r cyfarfod.

**(b) The National Eisteddfod.**

Invitation to a public meeting to find the level of support to the proposal to hold the National Eisteddfod in Anglesey in 2017. No-one was free to attend the meeting.

**3. Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.** Copi o ddatganiad i'r wasg a wnaed yn ddiweddar.. Er gwybodaeth.

**3. North Wales Community Health Council.** Copy of a recent press release. For information

**4. Llywodraeth Cymru.** Datganiad ysgrifenedig gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig. Er gwybodaeth.

**4. Government of Wales.** Written declaration by Jane Hutt, the Finance Minister on Collecting and Managing Devolved Taxes. For information

**5. Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn.** Gwybodaeth am eu cynlluniau ar gyfer gwella Maes y Sioe ymhellach. Er gwybodaeth.

**5. Anglesey Agricultural Society.** Outline of its plans for the further improvement of the Anglesey Showground. For information.

**5. Pwyllgor Môn Un Llais Cymru.**

Llythyr ynglŷn â chynlluniau'r Grid Cenedlaethol i gynyddu capasiti trosglwyddo ynni o Ynys Môn. Trafodwyd cynnwys y llythyr ond ni chafwyd gwirfoddolwyr i fynd o gwmpas yr ardal gyda'r ddeiseb oedd yn mynegi: Gwrthwynebu peilonau newydd, cefnogi ceblau tanfor, a datgan bod yr ymgynghoriad yn wallus gan nad yw'n rhoi cyfle i wrthwynebu peilonau a chefnogi'r opsiwn ceblau tanfor.

**5. Anglesey Committee One Voice Wales.**

Letter regarding the National Grid's plans to increase energy transfer capacity from Anglesey. The contents of the letter were discussed but no volunteers were forthcoming to go around the area with the petition which declared: Opposition to new pylons; support to sub sea cables, that the consultation process is flawed by not providing an opportunity to oppose pylons in favour of the sub sea option.

**6. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.** Y Bil a'i Femorandwm Esboniadol i'w gweld ar wefan y Cynulliad. Derbyn er gwybodaeth.

**6. National Assembly for Wales. Public Health (Wales) Bill –Provision of toilets available for use by the public.** The Bill and its Explanatory Memorandum are available on the National Assembly for Wales's website. For information.

**7. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Adroddiad Blynyddol 2014/15.** Derbyn er gwybodaeth.

**7. Public Services Ombudsman for Wales. Annual Report 2014/15.** For information.

**ARIANNOL:****Y Clerc i dalu'r canlynol:**

Anfoneb am £45.00 oddi wrth Mr H G Hughes am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Mai.

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar gyflwr ariannol y Cyngor.

**MATERION YN CODI:**

**1. Gordyfiant gwrychoedd ar yr A5 o'r Fronddu at Treban.** Cwyn i law. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd R G Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.

**CYFARFOD NESAF:** Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 7/9/15 yng Nghanolfan yr Henoed am 7pm.

**FINANCIAL:****The Clerk to pay the following:**

Invoice for £45.00 from Mr H G Hughes for translation services at the meeting held in May.

The Clerk gave a report on the Council's financial situation.

**MATTERS ARISING:**

1. Overgrown hedges on the A5 from Fronddu to Treban. Complaint received. It was decided to ask Councillor R G Parry to bring the matter to the attention of the County Council.

**NEXT MEETING:** The next meeting will be held on Monday 7/9/2015 at 7pm at the Pensioners Hall.